# Apêl Argyfwng Newyn Dwyrain Affrica

**Dduw cariadus a thrugarog,**
pan fo newyn yn tramwyo'r tir, does dim yn tyfu.
Planhigion, pobl, syniadau a breuddwydion –
gwywo a marw wnaiff popeth.
Caiff d'ewyllys ei wyro'n dreisgar,
wedi ei luosogi nawr
gan wrthdaro, newid hinsawdd a Chofid.
Dduw'r meysydd llewyrchus, mae digon i'n bwydo i gyd.
Gelwaist ni i'r cyfrannu cysegredig,
cymydog i gymydog byd eang
dy roddion o fwyd, dŵr
a chyfle i fyw bywyd a saernïwyd yn grefftus
gan dy ysbryd dwyfol.
Nid troi cefn wnawn ni, ond troi tuag at ein gilydd
gyda haelioni a thrugaredd cyfiawn
sy'n chwilio am atebion.
Mae newyn yn tramwyo'r tir, bydded i'n dicter dyfu,
bydded i'n penderfyniad gryfhau,
bydded i'n hundod ein sbarduno i weithredu.
Dduw'r meysydd llewyrchus,
helpa ni i fwydo'n gilydd.
Amen.

cymorth cristnogol

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/east-africa-hunger-crisis-appeal